
GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

HEOL HELYGAIN, HALKYN ROAD, PLAS YR YWEN A B5432 CROESFFORDD, TREFFYNNON

(GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS

A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)

(GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 82) 202-

Katie Wilby

Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Cyngor Sir y Fflint
Depo Alltami,
Ffordd yr Wyddgrug,
Alltami,
Yr Wyddgrug.
CH7 6LG

GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

HEOL HELYGAIN, HALKYN ROAD, PLAS YR YWEN A B5432 CROESFFORDD, TREFFYNNON

(GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS
A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 82) 202-

Mae Cyngor Sir y Fflint, wrth ddefnyddio'i bwerau dan adrannau 1 (1), 2 (1)(2), 4 (2)(3) a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer arall sy'n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ac yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

ADRAN 1 - RHAGARWEINIOL

Enwi a chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar XX XXXX 202- a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Sir y Fflint, HEOL HELYGAIN, HALKYN ROAD, PLAS YR YWEN A CROESFFORDD, TREFFYNNON (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) (Diwygiad Rhif 82) 202-

2. Yn dod i rym o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, mae atodlen map Z48, Taflen Adolygu Rhif 3 yn disodli map atodlen Z48 Taflen Adolygu Rhif 2, ac mae'r holl atodlenni map eraill ynghyd â'r amserlenni map a grybwyllwyd eisoes a chynlluniau y cyfeirir atynt yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn yn cael eu hymgorffori yng Ngorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgrynhoi) Cyngor Sir y Fflint 2013.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

4. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodlen gyda rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw ac mae unrhyw gyfeiriad at gynllun yn cyfeirio at gynllun wedi'i ymgorffori yn y gorchymyn hwn.

ATODLEN 1

Dim Aros ar Unrhyw Adeg
Treffynnon

Enw'r Ffordd	Atodlen Map	Diwygiad Taflen
Hoel Helygain	Z48	3 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 2 o Orchymyn 2013)
Halkyn Road	Z48	3 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 2 o Orchymyn 2013)
B5432 Croesffordd	Z48	3 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 2 o Orchymyn 2013)
Plas Yr Ywen	Z48	3 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 2 o Orchymyn 2013)

ATODLEN 2

Dim Aros 7am – 7pm
Treffynnon

Enw'r Ffordd	Atodlen Map	Diwygiad Taflen
Hoel Helygain	Z48	3 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 2 o Orchymyn 2013)
Halkyn Road	Z48	3 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 2 o Orchymyn 2013)

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN)
CYNGOR SIR Y FFLINT **)**
yn y fan hon)
ar y xx diwrnod hwn o xxxxxxxxxxx 202x)
ym mhresenoldeb:-)

Y CADEIRYDD

PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)

RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL

UWCH GYFREITHIWR

Hysbysiad o Gynnig

HEOL HELYGAIN, HALKYN ROAD, PHLAS YR YWEN A B5432 CROESFFORDD, TREFFYNNON

CYNNIG I DYNNU MARCIAU 'YSGOL CADWCH YN GLIR'

CYFYNGIADAU DIM AROS 7AM-7PM ARFAETHEDIG A DIM AROS AR UNRHYW ADEG ARFAETHEDIG

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Deddf Rheoli Traffig 2004, Rhan IV o Atodlen 9, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013, i gyflwyno:-

1. Tynnu 2 set o farciau 'Ysgol Cadwch yn Glir'

a. Ar ochr orllewinol Heol Helygain a Halkyn Road, Treffynnon

2. Cyflwyno cyfyngiadau 'Dim Aros 7am – 7pm':-

a. Ar ochr gorllewinol Heol Helygain, Treffynnon
b. Ar ochr ddwyreiniol Halkyn Road Treffynnon

3. Cyflwyno cyfyngiadau 'Dim Aros ar Unrhyw Adeg':-

a. Ar gyffordd Heol Helygain â Chroesffordd B5432
b. Ar gyffordd Halkyn Road â Phlas yr Ywen

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol 'Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013' yn parhau mewn grym.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, y cynlluniau sy'n dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yng Nghyngor Sir y Fflint yn Cysylltu, Hen Neuadd y Dref, Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7TD. Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchymyn Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at transportstrategyconsultation@flintshire.gov.ukneu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn neu e-bost i transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk erbyn dydd Gwener 27 Tachwedd 2026 gan ddyfynnu cyfeirif SS/TRO/JB/82

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, yr Wyddgrug, CH7 6LG.
Dydd Gwener 06 Tachwedd 2026.

CYNGOR SIR Y FFLINT

CROESFFYRDD Y B5432, HEOL HELYGAIN, HALKYN ROAD A PHLAS YR YWEN, TREFFYNNON

CYNNIG I DYNNU MARCIAU 'YSGOL CADWCH YN GLIR'

CYNNIG I GYFLWYNO CYFYNGIADAU DIM AROS 7AM-7PM A CHYFYNGIADAU DIM AROS AR UNRHYW ADEG.

Datganiad o Resymau dros Gynnig Gwneud y Gorchymyn

Mae Gorchymyn Rheoli Traffig arfaethedig Cyngor Sir y Fflint yn ceisio tynnu'r marciau 'Ysgol Cadwch yn Glir' presennol gerllaw hen safleoedd yr ysgolion. (Ysgol y Fron ac Ysgol Perth y Terfyn). Cafodd y marciau eu cyflwyno'n wreiddiol i wella diogelwch y ffordd drwy gyfyngu ar aros y tu allan i fynedfeydd yr ysgolion yn ystod y cyfnodau lle roedd y disgyblion yn cyrraedd ac yn gadael.

Yn dilyn ailddatblygu'r safle nid yw bellach yn cael ei ddefnyddio fel ysgol ac o ganlyniad nid yw'r marciau 'Ysgol Cadwch yn Glir' yn gwasanaethu'r pwrpas a fwriadwyd bellach. Byddai eu cadw yn gosod cyfyngiadau diangen ar y briffordd heb ddarparu unrhyw fudd cysylltiedig o ran diogelwch y ffordd.

Er mwyn sicrhau fod y mesurau rheoli parcio yn parhau mewn grym, bydd cyfyngiadau aros yn cynnwys Llinellau Melyn Unigol a Llinellau Melyn Dwbl yn cael eu gosod yn y cyffyrdd yn lle'r marciau 'Ysgol Cadwch yn Glir' presennol. Mae'r mesurau hyn yn cael eu cynnig i reoli parcio ar y stryd, cynnal gweledededd i yrwyr a cherddwyr, cynnal mynediad ac atal parcio rhwystrol mewn lleoliadau allweddol.


Caiff y Gorchymyn ei ystyried yn angenrheidiol felly er budd diogelwch y ffordd a symudiad cyflym traffig, yn unol â darpariaethau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Bydd y cynnig yn sicrhau fod y cyfyngiadau parcio yn parhau yn gymesur ac yn briodol i ddefnydd a gweithrediad presennol y briffordd.


Bydd cyflwyno'r cyfyngiadau arfaethedig yn sicrhau fod mynediad yn cael ei gynnal, bydd yn atal parcio rhwystrol, yn cynnal gweledededd yn y gyffordd ac yn galluogi i draffig lifo'n rhwydd yn y lleoliadau hyn.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau arfaethedig yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau i bawb sy'n defnyddio'r ffordd.

Ceir manylion am y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn arfaethedig.

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Yr Wyddgrug. CH7 6LG.
Dydd Gwener 06 Tachwedd 2026.





Key

Arfaethdig Dim Aros Ar Unrhyw Adeg
Llinell felen ddwbl / Double Yellow Lines
Proposed No Waiting at Any Time

Gwahardd aros arfaethedig rhwng 7am a 7pm
Proposed No Waiting 7am to 7pm.

Dim Aros presennol 7am i 7pm
Existing No Waiting 7am to 7pm.

Bydd marciau 'Cadw'n Glir' yr ysgol sydd
eisoes yn bresennol yn cael eu tynnu o'r safle
Existing School Keep Clear Markings to be Removed from site.

BASED UPON VARIOUS ORDNANCE SURVEY MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HM STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED LICENSE NUMBER LA 100023386L FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, MOLD.

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

Ph/Rev.	Revision Details	Rev.by	Chk.by	Date

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL
Streetscene
Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).
Alltami Depot, Alltami, Mold, CH7 6LG
Depo Alltami, Alltami, Yr Wyddgrug. CH7 6LG

Project:

Halkyn Street, Halkyn Road, Cross roads and Plas yr Ywen, Holywell

Ar Unrhyw Adeg

Waiting Restrictions

Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF
Contact Name: Telephone: 01352 703264

Drawn by:	NW	Fax No:	01352 70
Checked by:	JW	Date:	2026

Sheet 1 of 1

Scales at A1:	Drawing No:	Phase/Rev:
NTS		


AutoCAD File Ref: H:\TRO's Lining\TRO's 2026\Halkyn Road Holywell\Holywell lining Halkyn Rd road.dwg Nov 04, 2026 - 3:11pm

AREA CODE: Z48
COD ARDAL: Z48

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Sheet Revision No: 3
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 3

Sheet active from: xxxxxxxxxxx
Dalen yn weithredol o: xx xxxxxxx xx



Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386

The Flintshire County Council
(Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places)
(Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 82) Order 20xx

Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
(Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio)
(Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 82) 20xx

Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF


Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF

AREA CODE: Z48
COD ARDAL: Z48

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Sheet Revision No: 2
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 2

Sheet active from: xxxxxxxxxxx
Dalen yn weithredol o: xx xxxxxxx xx



Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386

The Flintshire County Council
(Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places)
(Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 80) Order 20xx

Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
(Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio)
(Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 80) 20xx

Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF

Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF